

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	28 Mehefin 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Gorffennaf 2022

PWNC

Eitem 5: CANLLAW CYNLLUN ATODOL: SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIREDD LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU

PENDERFYNIAD

- Cymeradwywyd y newidiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori
- Mabwysiadwyd yn ffurfiol Canllaw Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i'w ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniad o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd.
- Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol, y gall fod eu hangen i'r CCA drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen Mabwysiadu'n ffurfiol Canllaw Cynllunio Atodol: Safleoedd Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i'w defnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau Cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Bu i ddrafft cymeradwy o'r Canllaw fod yn destun ymgynghoriad Cyhoeddus rhwng 15 Rhagfyr 2021 a 9 Chwefror 2022, ac roedd crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	28 Mehefin 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Gorffennaf 2022

PWNC

Eitem 6:STRWYTHUR UWCH REOLAETHOL Y CYNGOR

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i:

1. Ddirwyn i ben yr arbrawf o weithredu gydag un Cyfarwyddwr yn unig a symud ymlaen y drefn benodi arferol.
2. Diddymu swydd Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd ar ymddeoliad y Pennaeth presennol a chyfuno'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd fel un adran newydd.
3. Trosglwyddo'r unedau Gwastraff ac Ailgylchu o'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Adran Amgylchedd a symud un swydd Pennaeth Cynorthwyol / Uwch Reolwr yn yr un modd.
4. Ail Danio rhaglen Cefnogi Pobl drwy leoli'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol yn rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth, am gyfnod o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.
5. Cadarnhau ail leoli elfennau o'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnaf a'r Gwasanaeth Ieuenctid o'r Adran Blant a Theuluoedd i'r Adran Addysg i'w weithredu gan y Prif Weithredwr.
6. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol addasu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddod yn weithredol.
7. Nodi y bydd y newidiadau uchod yn cyflawni arbediad refeniw blynyddol net o oddeutu £81,000 a fydd yn eistedd o fewn y Tîm Arweinyddiaeth am tro nes y bydd galw amdano.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bellach mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r Prif Weithredwr gychwyn yn ar ei rôl, ac wedi cael y cyfle i edrych ar strwythur Uwch Reolaeth y Cyngor. Gyda cyfnod newydd ar droed gyda tymor newydd yn y Cyngor, ynghyd â cychwn ar y cyfnod ôl Covid, mae'n amserol i amlinellu'r addasiadau sydd ei hangen i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i drigolion Gwynedd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	28 Mehefin 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Gorffennaf 2022

PWNC

Eitem 7:FFIOEDD PRESWYL A NYRSIO 2022-23

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i godi ffioedd safonol preswyl a nyrsio Gwynedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, yn unol a opsiwn isod a'u gweithredu yn unol ag amodau a thelerau'r Cyngor.

	£ yr wythnos
Preswyl	£645
Preswyl EMI	£780
Nyrsio	£800*
Nyrsio EMI	£900*

*ddim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd at gostau nyrsio

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yng nghyfarfod Cabinet ym mis Mawrth eleni, bu i'r Cabinet gytuno ar ffioedd safonol ar gyfer cartrefi annibynnol preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23. Eglurwyd fod angen gosod y ffi cyn Ebrill er mwyn caniatáu ar gyfer gweithredu. Gofynnwyd am adroddiad pellach er mwyn ystyried posibilrwydd o ffi uwch ar gyfer lefel staff, yn ogystal â chostau chwyddiant blynyddol.

Roedd yr adroddiad hwn yn adrodd ar y gwaith pellach sydd wedi ei wneud gan yr adran er mwyn gwneud y penderfyniad am y flwyddyn i ddod.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	28 Mehefin 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Gorffennaf 2022

PWNC

Eitem 8:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	28 Mehefin 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Gorffennaf 2022

PWNC

Eitem 9:ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
